# Y Dinesydd

**Medi 2013 Rhif 380** **Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch** **Pris: 80 ceiniog**

# LLWYDDIANNAU EISTEDDFODOL



**Yr Archdderwydd Christine James yn anrhydeddu Ifor ap Glyn, enillydd Coron Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych.**

## Ieuan Wyn yn ennill Tlws y Cerddor



Yn ôl y beirniaid roedd yr enillydd, Ieuan Wyn, wedi dewis alaw syml a phrydferth wedi'i phlethu â harmonïau soniarus a hudol. Fei'ganed yn yr Eglwys Newydd, Caerdydd. Bu'n astudio Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangoa a Pheirianneg a Chynhyrchu Cerddoriaeth yn yr Atrium, Prifysgol De Cymru. Mae'n gweithio fel recordydd sain i gwmni adnoddau 'Gorilla' yn y brifddinas. Fel aelod o Gôr Caerdydd cafodd y cyfle cyntaf i drefnu ac ysgrifennu gweithiau corawl. Yn ddiweddar, cafodd gomisiwn i ysgrifennu darn gwreiddiol ar gyfer y côr; mae'r darn 'Caerdydd' bellach i'w glywed ar gryno-ddisg newydd y côr a cafodd ei berfformio gan Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghystadleuaeth Côr Cymru 2001.



Côrdydd - enillydd Côr yr Wyl

## Glesni Haf Jones o Gaerdydd sydd wedi ennill Medal Ddrama Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffuniau 2013.



Dywedodd Geraint Lewis, wrth draddodi'r feirniadaeth yn y Pafiliwn ddydd Iau: "Mae gan y dramodydd ddawn ysgrifennu a phob clod iddo/i am ddefnyddio ffurf theatrig i gyfathrebu teimladau ac emosiynau mewn ffordd mor gyffrous." Ganed Glesni yn yr Wyddgrug yn 1986. Aeth i'r Brifysgol yn Aberystwyth a graddio mewn Cymraeg a Drama. Ar ôl ennill diploma ym Mhrifysgol Caerdydd, bu'n gweithio am gyfnod yn Adran Olygyddol CBAC yn y brifddinas. Bellach mae'n swyddog ymchwil gyda Beaufort Research ac yn byw yn Grangetown, Caerdydd.

## Huw yn ennill ar y trac Olympaidd!




Dydd Sul, 28 Gorffennaf, cafodd y rhedwr rhyngwladol Huw Roberts, sy'n byw yn yr Eglwys Newydd, brofiad arbennig iawn – ennill Ras y Loteri Gendlaethol yn Llundain (categori oedran 55-60) gyda sprint fawr o gwmpas y trac Olympaidd mewn ras lle roedd 12,500 o gystadleuwyr!

"Fe redes i'n galed yr holl ffordd," meddai Huw, "ond roedd yn deimlad rhyfeddol i redeg yn gyflym iawn yn y lap olaf – ac ennill o 3 eiliad yn unig!" Mae Huw yn llysgennad Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghymru ac yn aml yn rhedeg i godi arian i'r elusen. Mae'r ras hon eisoes wedi codi dros £1,000, ac ers iddo ddechrau hyn yn 2007, mae e wedi codi £27,000. Clodwiw!

[Gellir danfon rhoddion i www.justgiving.com/huwrobertspilgrimageforpeace neu i Sefydliad Prydeinig y Galon, 6 Heol Alfreda, yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2EH.]

Am fwy o wybodaeth neu gyfrannu, ewch i https://www.justgiving.com/Sian-Laycock1/
a www.justgiving.com/trustpabrownseaswim ]

# Y Dinesydd


Golygydd y rhifyn hwn:
**Hefin Mathias**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Gwynn Matthews**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Hydref erbyn 27 Medi i:
Derwen Deg, 2 Restways Close,
Llandaf, Caerdydd CF5 2SB
Ffôn: 02920 562880
e.g.matthews@btinternet.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf,
Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**


## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri
**COFFEE LOUNGE**, Llanisien

# HER A HANNER!

Yn ystod mis Gorffennaf aeth criw bach o bump o Gaerdydd ar antur newydd – ymuno â 258 o bobl fentrus i nofio 6.5 km (4 milltir) yn y môr o gwmpas Brownsea Island yn ymyl Poole, Dorset! Y pump o Gaerdydd oedd Siân Laycock (Miller gynt) a Rhodri James, y ddau yn gyn-ddisgyblion yn Ysgol Glantaf ac yn aelodau o glwb nofio Cardiff Masters, a'u ffrindiau, Karen Harris a Gareth a Sian Frith sy'n aelodau o glwb Rhoose Lifeguards.



*O'r chwith: Rhodri James, Sian Laycock, cyn-ddisgyblion Ysgol Glantaf, Karen a Gareth Harris, a Sian Frith.*

Syniad Siân Laycock oedd hyn, a'i bwriad oedd codi arian at achos da, sef Breast Cancer Care Services. Mae hi ei hunan newydd orffen cael triniaeth at gancr y fron, a dyma'i ffordd hi o ddiolch am y gofal a gafodd. Gorffennodd Rhodri y cwrs llawn yn safle 41 (1 awr 44m), Siân yn 57 (1 awr 47m) a Sian Frith yn 73 (1 awr 48m). Daeth Karen yn gyntaf yn y ras hanner cwrs (1awr 3m) a Gareth yn 11 (1awr 19m).

Cododd Siân £1,547 tuag at Breast Cancer Care Services, ac fe gododd Rhodri £281 tuag at Trust PA, sef elusen sy'n cynorthwyo ymchwil i wella anabledd o ganlyniad i dorri gwddf neu asgwrn cefn.

# Adeiladau Newydd Cyd-bwyllgor Addysg Cymru

Bydd Jonathan Adams, pensaer adeilad trawiadol CBAC yn arwain taith o amgylch y safle Ddydd Mawrth, **17 Medi am 12.00pm**. Cwblhawyd pencadlys newydd CBAC yn 2010, wedi ei leoli wrth ochr un o ffyrdd prysuraf Caerdydd, Rhodfa'r Gorllewin. Cafodd ei gynllunio i gyd-fynd ochr yn ochr â hen adeilad CBAC, fel y gallai'r sefydliad symud i'r adeilad newydd heb unrhyw amhariad ar ei weithrediadau hanfodol. Dywedodd Jonathan Adams, Pensaer o Capita Symonds: "Mae dyluniad pencadlys CBAC yn adlewyrchu deuoliaeth y safle: y ffordd ddeuol i'r gogledd a Chaeau Llandaf i'r de. Mae tu allan yr adeilad yn unigryw gan ei fod wedi ei ysbrydoli gan batrwm y gwaith cerrig aml-liw sy'n gyfystyr â Llandaf, ac mae'n ymgorffori carreg o adeiladau hŷn a waliau terfyn oedd yn sefyll yn flaenorol ar y safle.



I **archebu lle** ar y daith neu am wybodaeth bellach, cysylltwch â: Dafydd Wyn, Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu 029 2026 5102 dafydd.wyn@cbac.co.uk (Mae archebu lle yn hanfodol gan fod lleoedd yn gyfyngedig)

Am ragor o wybodaeth am yr holl brosiectau Drysau Agored, ewch i www.opendoorsdays.org.uk IP:

# BYGYTHIADAU I DWF ADDYSG GYMRAEG

Bu'r deng mlynedd diwethaf yn gyfnod o gydweithio llewyrchus rhwng Chris Jones, Prif Swyddog Addysg Cyngor Sir Caerdydd, a RHAG. Ffrwyth y cydweithio hynny fu agor chwe ysgol gynradd Gymraeg newydd, helaethu dwy ysgol gynradd, sicrhau safleoedd newydd ar gyfer ysgolion Melin Gruffydd a Threganna, yn ogystal ag agor trydedd ysgol uwchradd ac ymestyn adeiladau Ysgol Glantaf a Phlasmawr. Fodd bynnag, pan gollodd Chris Jones ei swydd yn 2012 gadawodd fwlch mawr ar ei ôl. Canlyniad hynny yw bod y Cyngor Sir wedi dychwelyd i'w hen ystryw o lyffetheirio twf addysg Gymraeg.

Fis Mawrth cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar ddarpariaeth ychwanegol yn ardaloedd Sblot/Tremorfa/Adamsdown, Trebiwt a dalgylch Pwll Coch. Ond darpariaeth cyfrwng Saesneg yn unig oedd y bwriad yn yr ardal gyntaf a'r ail, a bygythiad i ddyfodol yr ysgol newydd yn Grangetown trwy wneud y drydedd ffrwd ym Mhwll Coch yn barhaol yn lle dros dro oedd y trydydd gynllun. Gwrthwynebodd rhieni Pwll Coch gynllun sir yn gryf gyda 169 ymateb ysgrifenedig, ond 17 ohonynt yn ffafriol.

Cafwyd addewid ysgrifenedig oddi wrth y Cynghorydd Julia Magill fis Mai nad oedd bwriad i ddileu'r cynllun ar gyfer Grangetown, dim ond ei ohirio er mwyn dod o hyd i safle. Ddiwedd Mehefin hysbysebwyd bwriad y sir i symud ymlaen i agor ffrwd ychwanegol yn Ysgolion Adamsdown a Thremorfa ac i helaethu Ysgol Mountstuart, Trebiwt; ond doedd dim sôn am gynllun Pwll Coch. Trefnodd RhAG wrthwynebiad cyfreithiol i gynlluniau Tremorfa ac Adamsdown ar sail annhegwch i Lanmorfa.

Ganol Gorffennaf amlygwyd penderfyniad y sir i ymosod ar dwf addysg Gymraeg trwy gyhoeddi Eitem 2 ar Agenda'r Cabinet am Orffennaf 22. Maent am ddileu'r cynllun i agor ysgol newydd yn Grangetown ac i ateb y galw sy'n dal i dyfu, maent am droi'r ffrwd ychwanegol dros dro ym Mhwll Coch yn ffrwd barhaol serch gwrthwynebiad y rhieni. Ers llythyr Julia Magill mae'r adran wedi clustnodi safle ond un ar gyfer ysgol newydd Saesneg. Erbyn 2015, ebe nhw, bydd angen 57 lle ychwanegol ar gyfer addysg Saesneg yn Grangetown. Mae'r sir yn cyfaddef y bydd 60 lleoedd sbâr yn Glanyrafon a Chanton ac yn cyfaddef hefyd bod Ysgol Ninian Park (lle oedd Tanyreos) yn gallu derbyn 30 y flwyddyn. Ond ni fydd yn gyfleus i fwy na 15 disgybl fynd i ysgolion Canton/Glanyrafon. Felly dyma ddod o hyd i 45 lle gan adael 12 yn ddigartref. Er mwyn y 12 hyn y mae addysg Gymraeg i golli trydedd ysgol ar gyfer 30 y flwyddyn.

Mae papur y sir yn darogan ,y bydd y galw am addysg Gymraeg eleni yn disgyn i 137. Y gwir yw bod y galw eleni wedi cyrraedd 154 ac yn debyg o gyrraedd 158 pan fydd diwedd ar yr apeliadau am le. Rhifau'r sir yw'r rhain. Mae'r sir yn cydnabod bod adeiladu o'r newydd ar waith mewn 7 safle yn yr ardal a bydd y tai hyn yn cynhyrchu 111 plentyn y flwyddyn. Yn rhyfedd ddigon, mae'r sir yn cyfaddef y bydd 25% o'r plant ychwanegol yn debyg o ymgeisio am addysg Gymraeg, sef 28. O ychwanegu'r 28 at y rhif tebygol fydd yn ceisio addysg Gymraeg o'r tai sy'n bodoli erbyn 2015, sef 185, bydd cyfanswm y galw yn 213. Bwriad y sir yw darparu 180 lle, sef 3 ffrwd yr un ym Mhwll Coch a Threganna. O gael yr ysgol newydd yn 2015 gydag un ffrwd fe ddarperir 210, ychydig yn brin o'r galw. Mae RhAG wedi dweud ers 2010 bod eisiau ysgol 2 ffrwd newydd yn Grangetown erbyn 2015.

Mae rhieni Pwll Coch yn dal yn ffyrnig yn erbyn y cynllun newydd, wrth gwrs, wedi dod i'r golwg fel mae'r ysgolion yn cau; hen ystryw sydd wedi'i ddefnyddio o'r blaen. Serch anhawster gwyliau ysgol mae ymgyrch i wrthwynebu ar droed. Mae Julia Magill a'r Cabinet wedi'u rhybuddio o beryglon symud ymlaen ar sail dogfen llawn gwallau ffeithiol, ac oni y ceir gwelliannau bydd sylw'r Ombudsmon yn cael ei dynnu i'r camweinyddu. Mewn ateb ysgrifenedig dywedodd Carwyn Jones nad oes modd codi ysgol Saesneg gydag arian ar gyfer ysgol Gymraeg heb gydsyniad y Llywodraeth. Mae llythyr wedi mynd at y Gweinidog Addysg yn tynnu ei sylw at y gwallau ffeithiol sydd yn nogfen y sir. Erbyn Medi bydd protest gyhoeddus ar strydoedd Caerdydd. Trech gwlad na'i feistr.

*Michael Jones*

**Gwefan Y Dinesydd:**
**www.dinesydd.com**

# *Cofio Gwilym Rees Hughes*

Roedd Gwilym Rees Hughes yn adnabyddus yn ystod saithdegau'r ganrif ddiwethaf fel golygydd toreithog o flodeugerddi o farddoniaeth a rhyddiaith ac o gasgliadau o erthyglau academaidd. Yn eu plith cafwyd *Cerddi Heddiw* (1968), *Storïau* (6 chyfrol, 1968–74), *Cerddi Hir* (1970), *Saunders Lewis* (1975) ac *A Guide to Welsh Literature* (1976 a 1979). Doedd dim pall ar egni ac ysfa Gwilym i olygu llyfrau a fyddai'n ddefnyddiol gan fyfyrwyr ac yn dderbyniol gan y darllenydd cyffredin fel ei gilydd.

Yn frodor o Lanllechid, ger Bethesda, aeth i Goleg Prifysgol Gogledd Cymru i ddarllen ar gyfer gradd yn y Gymraeg ac, wedi graddio, aeth ymlaen i ysgrifennu thesis ar Caledfryn (William Williams, 1801-69). Ond ei brif ddileit oedd llenyddiaeth gyfoes ei wlad, yn enwedig y beirdd ifainc megis Gwyn Thomas a Bryan Martin Davies a oedd yn dod i amlygrwydd yn ystod y 1970au. Cefais gymorth mawr ganddo pan oeddwn yn golygu *Poetry Wales*, a daeth yn olygydd Cymraeg y cylchgrawn yn y man.

Dim ond un gyfrol o'i gerddi a welodd olau dydd, sef *Cysgod Llygliw* (1972), casgliad o gerddi byrion sy'n dal hud a lledrith y foment ond a oedd yn barod hefyd i wynebu'r byd modern. Ysgrifennodd J. E. Caerwyn Williams, ei hen Athro, gyflwyniad i'r gyfrol. Darlithydd a Phennaeth Adran y Gymraeg yng Ngholeg Addysg Mynwy oedd Gwilym adeg cyhoeddi ei gyfrol o gerddi, ac yn byw yn Rhiwbeina.

Yn y blynyddoedd wedyn cafodd sawl siom ac ergyd broffesiynol a theuluaidd. Yn sgil hynny, ni chyhoeddodd ragor o lyfrau ac fe aeth yn rhyw fath o feudwy, gan dorri ei gysylltiadau llenyddol yn gyfan gwbl. Collwyd felly, ysywaeth, gyfraniad Cymro pybyr a oedd yn hyddysg yn llenyddiaeth ei wlad.

Ganed Gwilym Rees Hughes 29 Mawrth 1930; bu farw 3 Ebrill 2013 yn 83 blwydd oed.

*Meic Stephens*

# *Cydymdeimlo â theulu Gwyndaf Owen*

Ar y 19eg o Awst, derbyniodd aelodau Bethel y newyddion trist fod Gwyndaf Owen wedi marw'n dawel gartref ar ôl brwydr ddewr gyda chancr. Bu Gwyndaf yn ysgrifennydd y capel am dros ddeng mlynedd ar hugain, yn ogystal â chwarae'r organ i ni bob dydd Sul yn ddi-ffael. Ynghyd â'i wraig, Mair, bu'n gweithio'n ddiwyd ond yn wylaidd er lles Bethel, bob tro â gwên ar ei wyneb a gair da i ddweud am bawb.

Bydd Bethel yn lle gymaint tlotach ar ei ôl, a chydymdeimlwn yn ddiffuant gyda Mair a'r plant, Alun ac Elen a'u teuluoedd yn eu colled.

# *Llongyfarchiadau…*

- I Huw a Luned Aaron, 57 Bishops Road, yr Eglwys Newydd, ar enedigaeth Eos yn Ysbyty'r Brifysgol ar 2 Awst, wyres i John a Gwen Emyr, y Mynydd Bychan, a Dr John a Jenny Aaron, Abertawe.
- I Aled a Siân Walters yr Eglwys Newydd ar enedigaeth Tomi Llewelyn ar Awst 5 yn Ysbyty'r Mynydd Bychan; brawd bach i Greta a ŵyr i Iolo ac Eiry Walters Rhiwbeina, a Tom a'r diweddar Iona Jones Parc Fictoria.
- I Paul Carey Jones, y canwr opera; mab Mansel a Kathleen Jones Rhiwbeina ar ei briodas â'r gantores Kai Rüütel yn Estonia yn ystod mis Awst. Cynhaliwyd y seremoni yn yr iaith Estonaidd ynghyd â'r Gymraeg a'r Saesneg. Maen nhw bellach wedi ymgartrefu yn yr Hâg yn yr Iseldiroedd. Bu Paul yn ddisgybl Glantaf ac yn 2001 enillodd y Rhuban Glas Ysgoloriaeth Tywyn Roberts yn Eisteddfod Dinbych y flwyddyn honno.
- I Geraint Evans o Bentyrch. Yn ystod mis Gorffennaf, enillodd Geraint gwregys du mewn cystadleuaeth Karate - tipyn o gamp o gofio ei fod yn hawlio cryn ymdrech meddyliol a chorfforol.

• Llythyr • Llythyr • Llythyr • Llythyr •

# Lleisiau o Lawr y Ffatri

Annwyl Olygydd,

Tybed a all eich darllenwyr ein helpu gyda'n prosiect cyffrous newydd 'Lleisiau o Lawr y Ffatri / Voices from the Factory Floor'? A oeddech chi, neu a ydych chi'n adnabod unrhyw fenyw a oedd gweithio mewn ffatri diwydiant ysgafn yng Nghymru rhwng tua 1945 ac 1975? Yn y cyfnod hwn roedd cannoedd o ffatrïoedd, gan gynnwys ffatri Laura Ashley yn y canolbarth, Metalbox a Mettoy yn ardaloedd Castell Nedd / Abertawe; ffatri Berlei Bra yng Nglyn Ebwy a Kaiser Bond yn Nowlais yn weithredol ledled Cymru a menywod oedd yn gweithio ynddynt yn bennaf.

Mae Archif Menywod Cymru wedi derbyn grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri i wneud prosiect hanes llafar sylweddol ar y thema hon ledled Cymru, fel y gallwn sicrhau y caiff yr agwedd bwysig hon ar hanes menywod ei diogelu a'i chadw at y dyfodol. Rydym yn awyddus iawn i recordio'r hanesion hyn cyn ei bod yn rhy hwyr. Oes gennych chi atgofion, storïau a ffotograffau y gallech eu rhannu â ni?

Os gallwch chi ein helpu, cysylltwch â ni ar 01792 893410; trwy e-bost catrin@stevens2760.freeserve.co.uk neu trwy lythyr at 'Lleisiau o Lawr y Ffatri' 10 Bwrw Road, Casllwchwr, Abertawe SA4 6TX

Yn gywir Catrin Stevens

(ar ran Archif Menywod Cymru
www.womensarchivewales.org)

# Colofn G.R.

Mae gwyliau'r Haf ar ben bellach a phawb yn ôl yn y tresi ac yn barod i wynebu tymor arall o weithgareddau yn y gwahanol eglwysi, cymdeithasau, corau, ysgolion a mudiadau. Ar ôl Gaeaf hir a chaled, Gwanwyn hwyr a dechrau Haf siomedig cafwyd cyfnod o dywydd poeth a braf a phawb yn chwysu chwartiau yn y gwres! Ond ychydig oedd yn cwyno ar ôl yr holl fisoedd o dywydd digalon a bu'n gyfle i fwynhau heb orfod codi ambarel a gwisgo cotiau cynnes!

Bu'r Haf yn llawn o ddigwyddiadau rhwng y rygbi yn Awstralia, Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro, y tenis yn Wimbledon, yr Eisteddfod yn Llangollen, y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd, Gŵyl y Glaniad yn nhre Aberteifi a'r Eisteddfod Genedlaethol yn Ninbych a chant a mil o ddigwyddiadau llai ledled Cymru.

Cafwyd chwip o Eisteddfod yn Ninbych a gwelwyd nifer o Gaerdydd ymhlith yr enillwyr gan gynnwys y Fedal Gerddoriaeth i'r cyfansoddwr ifanc Ieuan Wyn o'r Eglwys Newydd ac yn gyn ddisgybl o Ysgol Glantaf. Hefyd bu Ifor ap Glyn, enillydd y Goron yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd a chofiaf Ifor yn hogyn dwy ar bymtheg oed yn dod yn "swog" i Wersyll yr Urdd Glanllyn o'i gartre yn Llundain.

Bellach mae llawer o bobl ifanc Cymru a lwyddodd yn eu harholiadau Safon A yn wynebu cyfnod ym Mhrifysgolion Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig ac yn llawn brwdfrydedd ac uchelgais. Ond yr hyn sy'n fy nhristau ydy bod cymaint o'n pobl ifanc sy wedi derbyn addysg Gymraeg yn dewis mynd i astudio dros y ffin ac o ganlyniad yn gwanhau'r elfen Gymreig yn ein prifysgolion yma yng Nghymru. Ond ar y llaw arall mae miloedd o Saeson ifanc yn gweld gwerth yn ein colegau ac yn heidio yma! – rhyfedd o fyd! Oherwydd yr allforio hyn collir llawer o'n pobl ifanc dawnus a galluog gan nad ydy llawer ohonyn nhw yn dychwelyd i weithio yng Nghymru ar ddiwedd eu cyfnod yn y colegau yn Lloegr.

Gan fy mod ar fy mocs sebon man a man i mi gwyno am yr iaith sâl a glywir ar Radio Cymru ac S4C o dro i dro ac yn ddiweddar clywais i aelod seneddol yn sôn am dau iaith a thri chân a chyhoeddwr yn sôn am dri ar bymtheg a pherson arall a gohebydd yn sôn am ddau ochr ac am dri blynedd, ac actor yn sôn am wario âmser yn lle treulio amser! Ond y gwaethaf i gyd odd pan wyliais i raglen ar BBC2 yn sôn am gwpwl ifanc yn prynu hen gapel yn Hirwaun i'w adnewyddu ac yn ystod y rhaglen yn sôn am "NEEBOW" drwy'r amser yn lle dweud "NEBO" gan mai dyna odd enw'r Capel! Yna, ar raglenni Saesneg megis "Wales Today" mae ynganiad ambell gyhoeddwr yn codi gwallt fy mhen wrth sôn am enwau lleoedd neu enwau pobl fel "CAARWYN" JONES ac ati! Mae angen ambell wers ynganu ar y rhai di Gymraeg sy'n gweithio ar raglenni BBC Wales i sicrhau gwelliant. Beth amdani penaethiaid Canolfan y BBC yn Llandaf?!

Dyna ddigon o gwyno am y tro er mwyn sôn am gyd-ddigwyddiad hynod sef cyfarfod â dwy chwaer ym maes parcio'r Eisteddfod ac wrth siarad â nhw ddarganfod eu bod yn byw yn Nantperis. Minnau yn sôn y cafodd fy mam ei geni ar ffarm o'r enw "Y Fron" yn Nantperis ac un o'r chwiorydd yn dweud mai hi a'i gŵr odd yn ffarmio yn "Y Fron" ar hyn o bryd! Pwy fase'n meddwl ynte?

Tybedd faint o ddarllenwyr "Y Dinesydd" sy wedi darllen nofel gyntaf Rhiannon Gregory, Rhiwbeina o'r enw "Aderyn Brith" sy'n adrodd hanes gwraig hynod o Lydaw sy'n seiliedig ar y gwir. Mae hi'n nofel ddarllenadwy ac mewn iaith goeth a daeth llond neuadd o bobl ynghyd i lawnsio'r nofel yn Llanisien ar ddechrau mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau i'r awdures gan obeithio y dalith ymlaen i sgrifennu.

## Eisteddfod Y Cymoedd

Eleni byddwn yn cynnal Eisteddfod y Cymoedd am y seithfed flwyddyn yn olynol. Cynhelir yr eisteddfod yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach eleni eto. A'r dyddiad yw nos Wener, 18fed o Hydref gan ddechrau am 5.00 o'r gloch. Y beirniaid eleni yw Euros Rhys Evans a Gareth Rhys Davies (Cerdd), Margaret ac Ifan Roberts (Llefaru a Llenyddiaeth Agored), Sian Rhiannon Williams (Llenyddiaeth Ieuenctid), Alwena Bowen (Dawns) a Mike West (Crefft a Ffotograffiaeth). Y cyfeilydd fydd Lowri Guy. Am fwy o fanylion cysylltwch â Sian Griffiths ar 02920 889295 neu Sianpg@btinternet.com ; Linda White ar 02920 882107 neu lindacharnellwhite@gmail.com

**R. Alun Evans**
Cadeirydd Eisteddfod y Cymoedd




# Ôl-Lwybrau

Cyrhaeddais Gaerdydd yn ddeunaw oed yn ystod eira mawr 1962/63. Wedi gweithio am gyfnod yn newyddiadurwr gyda'r *Carmarthen Times*, roedd arnaf awydd mentro i'r byd darlledu. Am nad oedd swydd wag i gynnig amdani yn Adran Newyddion y BBC, penderfynais wneud cais mewn maes na wyddwn ddim amdano ac, er mawr syndod, cefais fy nerbyn i fod yn 'rheolwr stiwdio' dan hyfforddiant. Brysiaf i ychwanegu fod y teitl braidd yn gamarweiniol oherwydd gwas bach ar waelod y grisiau oeddwn mewn gwirionedd.

Roedd y symud i Gaerdydd yn gam enfawr imi. Cefais fagwraeth ar fferm fynydd yn Sir Frycheiniog a doeddwn i erioed wedi bod yn y brifddinas, ar wahân i drip ysgol i weld perfformiad o *Saint Joan* yn y Theatr Newydd. Trwy drugaredd, trefnwyd llety ar fy nghyfer yn Marlborough Road. Er taw *Y Westfa* oedd ei enw swyddogol, roedd pawb yn ei nabod fel *Y Cleaver Arms*. Dyma gartref y darlledwr adnabyddus, Emrys Cleaver, ei wraig a'i ferch, a byddai croestoriad diddorol o actorion, cantorion a phobl gyhoeddus yn lletya yno yn eu tro ac yn rhannu'r bwrdd brecwast.

Gyda'r nos, roedd yr hwyl ryfeddaf i'w gael yn y lolfa. Byddai Cynan yn aml yn teyrnasu fel brenin o'r gadair freichiau ger y tân. Cofiaf y nofelydd John Ellis Williams yn tynnu ar ei bibell wrth ein diddanu â rhes o straeon difyr. Diddanwr arall oedd yr actor Charles Williams, a fyddai'n cythruddo Emrys Cleaver ambell waith, am ei fod yn dueddol o ddiffodd y sain ar y set deledu a chynnig sylwebaeth ei hun ar yr hyn a oedd i'w weld ar y sgrîn.

Dyddiau difyr oedd y rheini yn y *Cleaver Arms*, er imi bechu rhieni un o'n darlledwyr mwyaf adnabyddus un tro. Y noson arbennig honno, roeddwn wedi mentro i un o'r tafarnau hynny yn City Road a oedd yn gwerthu *scrumpy* rhad allan o gasgenni enfawr y tu ôl i'r bar. Bryd hynny, byddai llawer o gyn-filwyr y Rhyfel Mawr yn mynychu'r tafarnau hyn, a chamgymeriad o'r mwyaf oedd i lanc nad oedd yn gyfarwydd â'r ddiod gadarn i gydyfed â nhw. Ar ôl y gyfeddach, dylwn fod wedi mynd yn syth i fy ngwely, yn hytrach nag ymuno â'r cwmni yn lolfa'r *Cleaver Arms*. Fore trannoeth, cafodd fy ffrind rybudd gan ei rieni i beidio â chadw cwmni imi byth eto.

Cof arall am fy nyddiau cynnar yng Nghaerdydd oedd mynd â chrysau i'w golchi mewn *Chinese laundry*. Roedden nhw bob amser yn cael eu dychwelyd yn rhyfeddol o lân, ond profiad poenus oedd eu gwisgo oherwydd yr holl startsh yn eu coleri. Profiad poenus arall oedd fy mlas cyntaf o gyrri, yn y *New Calcutta* yn Stryd y Bont. Cefais fy narbwyllo gan fy ffrindiau y dylwn ddewis *vindaloo* am nad oedd mor danllyd â'r seigiau eraill!

Ymhen dwy flynedd, llwyddais i gael swydd newyddiadurwr dan hyfforddiant yn yr Adran Newyddion yn Stacey Road. Paratoi bwletinau Cymraeg oedd fy mhrif ddyletswydd i ddechrau, a bûm yn ffodus am gyfnod i gael hyfforddiant gan y Dr Aled Rhys Wiliam, a oedd ar fin gadael yr adran i ddychwelyd i'r byd academaidd. Yn y cyfnod hwnnw, os cofiaf yn iawn, byddai bwletin newyddion Cymraeg yn cael ei ddarlledu cyn y rhaglen deledu *Heddiw*. Mewn adeilad i fyny'r ffordd yn Newport Road yr oedd swyddfeydd y rhaglen honno, a deuai'r criw i lawr i Stacey Road bob nos ychydig cyn y darllediad. Bron yn ddieithriad, wrth i mi deipio eitem hwyr o newyddion, deuai cwmwl o fwg sigarét *Player's* dros f'ysgwydd, a gwyddwn taw golygydd *Heddiw*, John Roberts Williams oedd yno. Ei gwestiwn cyntaf oedd a wyddwn bris diweddaraf rhyw gwmni neu'i gilydd ar y farchnad stoc, ac yna awgrymai'n garedig sut y gallwn wella cystrawen y frawddeg roeddwn ar ganol ei theipio.

Erbyn 1983, roeddwn yn arbenigo mewn amaethyddiaeth a materion gwledig, a phenderfynais symud i ganol y bobl roeddwn yn ymdrin â nhw. Roeddwn hefyd yn briod ac yn awyddus i godi fy nau fab mewn awyrgylch naturiol Gymraeg. Trwy ddamwain a hap, tyddyn yn Rhandir-mwyn, Sir Gâr, a ddaeth yn gartref newydd – ac yno rwy'n byw o hyd, er fy mod ar fy mhen fy hun bellach. Yr unig dro y byddaf yn dychwelyd i Gaerdydd yw i ymweld â'r deintydd, sefŵyr fy neintydd cyntaf, neu i drawsgrifio ychydig yn rhagor o ddyddiaduron y Tonn yn y Llyfrgell Ganolog. Ni fu'n edifar gennyf symud o Gaerdydd i Randir-mwyn, ac ni fyddwn yn dychwelyd i fyw i'r brifddinas. Serch hynny, prin yw'r ffrindiau y gallaf droi atynt am sgwrs yn Gymraeg yn Rhandir-mwyn erbyn hyn, ac yn fynych teimlaf fy mod yn estron yn ei wlad ei hun. Rhag imi orffen ar nodyn lleddf, dylwn grybwyll fod y bobl sy'n rhedeg y bwyty Indian Lounge yn Llanymddyfri yn gwneud eu gorau i ddygymod â'r Gymraeg, ac mae'r bwyd yno yn arbennig o dda.

**Handel Jones**


**Cronfa Glyndŵr**

**Cinio Dathlu 50 Mlynedd 1963 – 2013**

**Anerchiad gan**
**Yr Athro Richard Wyn Jones**

Nos Sadwrn 12 Hydref 2013
Clwb Golff Radur
Tocyn £27.50

Rhaid llogi lle ymlaen llaw
Tocynnau gan yr Ymddiriedolwyr – gweler www.cronfa glyndwr – neu ffonio 029 20566731

**Croeso cynnes i bawb**

YOGA *gyda* VALERIE PRICE



**Nos Fercher**
**7.00 - 8.30**

Cwrt Insole
Fairwater Road
Llandaf CF5 2LF

12 wythnos yn dechrau:
**11 mis Medi**
Pris: £78

admin@yoga-works.co.uk 07500-131710

Ffa-la-la

Sesiynau cerddoriaeth cyfrwng Cymraeg i blant 0 i 4

Canu, chwarae offerynnau a hwyl a sbri i bawb!

Cynhelir y sesiynau mewn nifer o leoliadau ar draws y ddinas.
Pris pob sesiwn - £5
Grŵp 1 – Babanod a phlant sy'n cropian
Grŵp 2 – 2-4 oed

07771 677827

**info@tiptopbop.co.uk**

Am fanylion pellach ewch ar **www.tiptopbop.co.uk**

# Cyfarfod Blynyddol "Y Dinesydd"

Fe'i cynhaliwyd nos Lun 22 Gorffennaf yng Nghapel Bethel ac yn ystod y cyfarfod etholed y swyddogion canlynol: Cadeirydd Gwilym E Robert; Is-gadeirydd Bryan James, Ysgrifennydd Cofnodion Nia Jones; Trysorydd Huw Roberts, Prif ddosbarthwr Huw Jones a Swyddog Hysbysebion dros dro Bryan James. Diolchwyd i'r golygyddion misol am eu gwaith gwirfoddol; onibai amdanyn nhw, ni fyddai'n bosibl cyhoeddi' "Dinesydd" o'r naill fis i'r llall. Mynegwyd siom fod cylchrediad y papur yn dal yn wan o ystyried bod dros 36,0000 o siaradwyr Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd yn ôl Cyfrifiad 2011. Ond mynegwyd balchder bod y fersiwn digidol o'r papur, sef "Pobl Caerdydd" yn llwyddiant y to iau sy' gyfrifol ei gynhyrchu.

## Cymdeithas Cymraeg Rhiwbeina yn 21ain mlwydd oed

Cynhelir te parti a Hydref 28 i ddathlu'r ffaith fod y Gymdeithas yn 21ain mlwydd oed. Fe'i sefydlwyd ar Hydref 29 1992 yn Llyfrgell Rhiwbeina pan rodiodd Gwilym Roberts sgwrs am Batagonia o flaen cynulleidfa o tua 50; ac yn dilyn y sgwrs awgrymwyd ein bod yn sefydlu'r Gymdeithas. Roedd pawb o blaid; felly aed ati i drefnu rhaglen am weddill y flwyddyn.

# "Y Tymor"

Mae gan y Saeson eu "Tymor": Sioe Flodau Chelsea; Regata Henley; Glyndebourne ac yn y blaen - popeth yn troi o gwmpas Llundain a'r cyffiniau. Ond mae gennym ni yng Nghymru ein "Tymor" ninnau: rhaglen haf y Cwmni Opera Cenedlaethol; Tafwyl, Sioe Frenhinol Cymru ac wrth gwrs yr Eisteddfod Genedlaethol, ac mae'n cynnwys rhywbeth ym mhob rhan o'r wlad.

Does dim rhaid i ni fynd i Lundain, Milan neu Bayreuth er mwyn clywed opera o'r radd flaenaf. Roedd gwrando ar berfformiad y Cwmni Opera Cenedlaethol o Lohengrin yng Nghaerdydd (gydag uwchdeitlau Cymraeg wrth gwrs) yn brofiad cerddorol aruchel.

Mae llwyddiant Tafwyl, gyda miloedd yn cael hwyl drwy gyfrwng y Gymraeg, yn argoeli'n dda ar gyfer dyfodol yr iaith yn y ddinas. Rydym yn dal i gynnal Sioe Amaethyddol lwyddiannus sy'n denu rhai fel fi sydd heb unrhyw gefndir mewn ffermwriaeth.

Uchafbwynt ein Tymor yw'r Eisteddfod Genedlaethol. Rhan ddymunol iawn ohoni yw cael ymweld â rhannau o Gymru na fyddwn wedi eu gweld oni bai amdani. Ac roedd eleni yn Ninbych yn wythnos bleserus iawn. Mae'n werth nodi cyfraniad a wneir i'r gan y rheini sydd bellach wedi ymgartrefu yn y brifddinas, ond sydd heb anghofio eu gwreiddiau. Roeddwn yn arbennig o falch i glywed Gwynn Mathews yn trafod Twm o'r Nant a Jac Glan y Gors a Robin Gwyndaf yn ein dysgu am Lên Gwerin Bro Hiraethog. Tra roeddwn yn y Gogledd, cefais gyfle i wneud taith a fu ar fy rhestr "i'w gwneud" am flynyddoedd - teithio ar y trên bach o Flaenau Ffestiniog i Borthmadog ac ymlaen o Borthmadog i Gaernarfon. Mae'n ffordd wych o weld tirwedd gogoneddus Eryri.

Wel, mae'r "Tymor" drosodd am eleni ond fe roddodd lawer i mi fyfyrio drosto yn ystod y gaeaf. Edrychaf ymlaen at "Dymor" 2014.

*Eluned Bush*

# Noson Groesawu yng Nghanolfan yr Urdd

Nos Sadwrn 13 Gorffennaf gwnaeth Cangen y De o Gymdeithas Cymry'r Ariannin drefnu noson i groesawu nifer o blant o Ysgol Gymraeg/Sbaeneg Trelew yn Nyffryn Gamwy i Gaerdydd a hefyd dwy ferch o'r Wladfa sydd yn dilyn cyrsiau Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd. Cynhaliwyd y noson yng Nghanolfan yr Urdd sydd yn rhan o Ganolfan y Mileniwm ym Mae Caerdydd. Mae bron i gant o blant yn mynychu Ysgol yr Hendre yn Nhrelew ac mae sôn am sefydlu ysgol debyg yn y Gaiman.



*Hywel Roberts a Gwilym Roberts gyda rhai o'r plant o Ysgol Yr Hendre, Trelew, Patagonia*

menter@caerdydd.org
Ffon: 029 20689888

menter caerdydd

# Caerdydd

## Haf 2013

Aeth haf prysur arall i'r Fenter. Cynhaliwyd sesiynau chwarae Bwrlwm am 3 wythnos mewn 4 lleoliad, a daeth dros 1500 o blant i'r sesiynau. Yn ogystal â chyfleoedd chwarae, gweithdai a chymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg, aeth y plant ar deithiau i'r Traeth, Parc Margam a'r Bae.

Cynhaliwyd 5 wythnos o Gynlluniau Gofal ar dras 3 safle – Ysgol Pencae, Ysgol Glantaf ac Ysgol y Wern, gyda nifer fawr o'r dyddiau'n llawn. Bu'r plant yn coginio, cynnal mabolgampau, dysgu ieithoedd tramor, cymryd rhan mewn gweithdai cartwn a gwyddoniaeth yn ogystal a mynd ar deithiau i Sw Noahs Ark, y traeth, Parc Margam a chael ambell i frwydr dŵr.



*Y plant ym Mharc Parc Margam*



Cynhaliwyd Hwyl Haf am y tro cyntaf eleni yng Nghanolfan Hamdden y Tyllgoed – wythnos o weithgareddau amrywiol i blant cynradd. Yn ystod yr wythnos trefnwyd sesiynau nofio, athletau, dawnsio stryd, crefft a llawer mwy!

## Clybiau Plant

Mae Menter Caerdydd ar y cyd ag Adran Chwaraeon yr Urdd yng Nghaerdydd wedi trefnu amserlen brysur a chyffrous i blant cynradd y tymor hwn. Bydd 14 o glybiau plant yn dechrau ym mis Medi - Clwb Pêl-Rwyd, Dawnsio Stryd, Rygbi, Clybiau Nofio, Clybiąu Gymnasteg, Clybiau Drama Cymunedol (ar ôl ysgol), Sierbets Sherman, Clwb Gwnio, a Menter Mathamateg a Chôr Plant Caerdydd. I gofrestru ewch i'r wefan – mentercaerdydd.org a chliciwch ar 'Clybiau' ar y dudalen flaen. Os hoffech fwy o wybodaeth, cysylltwch â Leanne yn y swyddfa – leanne@mentercaerdydd.org / 029 2068 9888.



*Enillwyr Bŵt Camp Menter Caerdydd*

## Gŵyl Fwyd y Fenni

Bydd bws yn gadael o Gaerdydd ar gyfer Gŵyl Fwyd y Fenni, Dydd Sadwrn, 21 Medi. Bydd yn gadael o Erddi Soffi, tu allan i'r Mochyn Du am 10am ac yn dychwelyd o'r Fenni am 6pm. £9 yw cost tocyn bws i Oedolion a £5 i blant. Mae nifer o stondinau bwyd ar hyd strydoedd y Fenni, ond er mwyn cael mynediad i nifer o'r lleoliadau gan gynnwys y Farchnad a'r Bragdy, bydd angen i bawb brynu tocyn 'stroller'. Nid yw mynediad i'r Ŵyl yn gynwysiedig yn pris y tocyn bws. Mae modd prynu tocyn o flaen llaw neu ar y diwrnod. Mae manylion llawn am brisiau a digwyddiadau'r Ŵyl ar eu gwefan – abergavennyfoodfestival.com. I archebu lle ar y bws, ewch i wefan Menter Caerdydd – mentercaerdydd.org, neu cysylltwch gyda angharad@mentercaerdydd.org / 029 2068 9888.

## Cwis

Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn y Mochyn Du, Gerddi Soffia, nos Sul 29 Medi am 8 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. £1 yr un i gymryd rhan.

## Cyrsiau Oedolion

Mae Menter Caerdydd mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd wedi trefnu amserlen o ddosbarthiadau i oedolion ar gyfer Tymor yr Hydref fydd yn cychwyn yn ystod mis Medi. Bydd y rhaglen o gyrsiau'n cynnwys Sbaeneg, Eidaleg, Pilates, Cynganeddu i Ddechreuwyr, Cynganeddu-Ymarfer y Grefft, Pobi, Cwiltio, Clytwaith, Gwnio a Gwau, Cadw'n heini 55+. Bydd Cerameg a Pilates Ffitrwydd yn gyrsiau newydd yn cael eu cynnal am y tro cyntaf! Am fwy o fanylion a rhestr lawr o'r cyrsiau Oedolion fydd ar gael ewch i mentercaerdydd.org a chliciwch ar 'Oedolion' neu cysylltwch â Sara Jones sarajones@mentercaerdydd.org / 029 2068 9888

## Theatr Ieuenctid Caerdydd

Bydd Theatr Ieuenctid Caerdydd yn dechrau tymor newydd Nos Wener, 27 Medi. Bydd y tymor 10 wythnos yn cael ei gynnal eto mewn partneriaeth a Sherman Cymru a byddwn yn cwrdd yno'n wythnosol rhwng 5.30pm a 7pm. Mae'r grŵp yn addas ar gyfer disgbylion blwyddyn 7, 8, 9 a 10. Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Sherman, bydd y sesiynau, dan arweiniad tiwtoriaid proffesiynol, yn cynnig cyfleoedd perfformio, gweithdai creadigol ac ymarferol, ymweliadau i weld cynhyrchiadau proffesiynol a pherfformiad diwedd blwyddyn yn nhymor yr Haf 2014. £60 bydd y ffi cofrestru ar gyfer tymor yr Hydref. I gofrestru, neu am fwy o fanylion, ewch i mentercaerdydd.org a chliciwch ar 'Clybiau' neu cysylltwch ag angharad@mentercaerdydd.org

## Facebook a Twitter

Cofiwch bod gennym gyfrif Facebook a Twitter, felly beth am ein dilyn ni, neu ychwanegu ni fel ffrind er mwyn sicrhau eich bod chi'n derbyn y newyddion diweddaraf!

## Dysgu Cymraeg?

Ydych chi'n dysgu Cymraeg? Mae Menter Caerdydd yn cynnal 2 ddigwyddiad wythnosol i Ddysgwyr yn y ddinas – Clonc yn Cwtsh yn Chapter bob Nos Lun rhwng 6pm a 8pm a Bore Coffi Dysgwyr yn y Mochyn Du bob bore Mawrth rhwng 11am a 12pm. Croeso i Ddysgwyr o bob safon!

## Gweithgareddau i Rhieni a Phlant

Bydd amserlen newydd o weithgareddau i blant bach cyn ysgol a'u rhieni'n dechrau eto fis Medi yma. Am fwy o fanylion, ewch i wefan Menter Caerdydd – www.mentercaerdydd.org neu cysylltwch gyda marirhys@mentercaerdydd.org / 029 2068 9888

* **BYGI HEINI –** Cwrs 8 wythnos yn dechrau Dydd Gwener, 6 Medi. 10.30am-11.30am /Caeau Llandaf / £40.00

* **SBLISH SBLASH BABIS DWR** – Dau gwrs 10 wythnos yn dechrau Dydd Iau 12 Medi / Canolfan Hamdden y Tyllgoed –10.30am-11am (Addas i oedran 3-18mis) a 11.15am-11.45am (Addas i 18mis – 3 oed) / £70.00

* **PLANTOS HEINI –** Cwrs 10 wythnos yn dechrau Dydd Gwener, 13 Medi. 12.20pm – 13.20pm / Canolfan Ieuenctid Canol Caerdydd (Addas i blant 2 -4 oed) / £30.00

* **AMSER STORI –** 4 sesiwn wythnos mewn cydweithrediad gyda Llyfrgelloedd Caerdydd

• Bob Dydd Mawrth – 10.30am Llyfrgell Grangetown / 2.15pm Llyfrgell yr Eglwys Newydd

• Bob Dydd Mercher – 10.15am Llyfrgell Radur / 2.15pm Llyfrgell Penylan

**02920 689888**
**www.mentercaerdydd.org**

# Ysgol Bro Morgannwg

## Dathlu canlyniadau TGAU a Safon Uwch ysgubol ym Mro Morgannwg eleni

Bu cryn ddathlu yn Ysgol Gyfun Bro Morgannwg ym mis Awst eleni wrth i 100% o'r disgyblion ennill graddau E neu'n uwch yn eu harholiadau Safon Uwch a llwyddodd 100% o ddisgyblion blwyddyn 11 i ennill 5 gradd A*- C mewn pynciau TGAU neu gymhwysterau cyfwerth. Dyfarnwyd bod 37% o'r holl gofrestriadau Safon Uwch wedi ennill graddau A neu A* ac mae hyn yn naturiol yn destun balchder gan bod y ganran 14% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Llwyddodd 14 o ddisgyblion i ennill 45 o raddau A ac A* rhyngddynt wrth astudio 3 neu fwy o bynciau. Yn eu plith mae Harri Foster Davies â 5 gradd A* a fydd yn mynd ei flaen i astudio meddygaeth yng Nghaergrawnt a Wil Thomas a lwyddodd i ennill 3 A*. Bydd Wil yn astudio Mathemateg yng Nghaerfaddon. Mathemateg a'r Gwyddorau oedd pynciau mwyaf poblogaidd eleni ac yno gwelwyd y canrannau uchaf o A* a graddau A.

Ymfalchiwn bod yr holl disgyblion wedi gwireddu eu potensial, ac wrth inni ddathlu canlyniadau ardderchog mewn ystod o bynciau gan gynnwys Ffrangeg, Almaeneg, Cymraeg, y dyniaethau a'r celfyddau lle llwyddodd 100% o'r disgyblion i ennill graddau A* - C, rydym wrth ein bodd fel ysgol ein bod yn parhau i ddarparu cyrsiau priodol a meithrin talent pob unigolyn. Wythnos yn ddiweddarach, pleser oedd tystio i gynnydd rhagorol yng nghanlyniadau TGAU yr ysgol ac heb os nac oni bai, penllanw dwy flynedd o lafur caled a dyfalbarhad gan ddisgyblion a staff oedd canlyniadau TGAU eleni gyda nifer fawr o ddisgyblion yn mynd y filltir ychwanegol ac yn llwyddo i wneud yn well na'u targedau. Gwnaed cynnydd nodedig gan yr holl bynciau craidd ers canlyniadau'r llynedd ac ar flaen y gad o ran pynciau opsiwn eleni oedd yr Adran Hanes lle llwyddodd 61% o'r grŵp i gyrraedd y graddau uchaf A* ac A. (23A* a 15 gradd A) Yn arwain y ffordd eleni â rhes o raddau anhygoel oedd tri disgybl sef Dafydd George (13 gradd A*) Phoebe Elias (13 gradd A*) a Megan Dafydd (12 gradd A*). Rydym wrth ein bodd â'r canlyniadau ardderchog yma a dymunwn yn dda i'r holl ddisgyblion yn y dyfodol.






# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Ar fy mhori cyntaf, brysiog yn y gyfrol Cyfansoddiadau a Beirniadaethau'r Eisteddfod Genedlaethol 2013 prin iawn yw'r cyffyrddiadau gwyddonol. Eithriad yn groes i hynny, ac yn gwbl annisgwyl, synnais weld yn y casgliad o gerddi di-gynghanedd a enillodd y Goron i Ifor ap Glyn bod *entropi* yn deitl ar un o'r cerddi. Mae entropi yn gysyniad cwbl sylfaenol i'r holl wyddorau ond nid hawdd i'w ddirnad o bell ffordd. Mae'n ymwneud â threfn ac annhrefn ymhlith systemau o bob math, y microsgopig a'r macrosgopig. Dyma eiriau'r bardd wrth gyfeirio at adfeilion Ystrad Fflur,

> Pe teflid y meini sanctaidd yma
> i'r awyr fil o weithiau,
> ni fyddent yn glanio fel hyn yn ôl.

Un amlygiad o entropi yn ein bywydau beunyddiol yw'r gosodiad bod systemau yn tueddu i gyflwr o anhrhefn oni roir egni (gwaith/llafur) atynt. Croeso i'm stydi!

Da deall mai dysgwraig o Loegr, Jacqueline Ann Willmington, nawr yn byw yn Bow Street, Saesnes a milfeddyg, enillodd yr Erthygl Wyddonol. Teitl yr erthygl yw Bygythiad Feirws Scmallenberg yng Nghymru, ond mae'r cynnwys yn rhagori.

Ar y Maes, cefais bleser mawr wrth fod yn y cyfarfod i lansio cyfrol ddathlu yn nodi hanner canmlynedd ers cyhoeddi'r cylchgrawn Y Gwyddonydd. Roedd y golygydd a'r gweledydd cyntaf, Glyn O. Phillips, yno yn bwrw golwg dros ddeng mlynedd ar hugain y cylchgrawn. Noddwyd yr achlysur a'r cyhoeddiad gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (mil o ddiolch i Hefin Jones, Deon y Coleg). Trefnodd y Coleg fod pob rhifyn o Y Gwyddonydd yn awr ar ffurff ddigidol. Mae'n dal yn drysor i'r dyfodol.

I ffwrdd o'r Maes, cefais brofiad i'w gofio yn Llandudno. Roeddwn yn tawel-fwynhau gwres y dydd, yn gwylio llif y dorf yn cerdded y Prom ac yn llyfu cornet hufen ia mewn dwys fyfyrdod pan ddaeth *spitfire* o wylan dros fy ysgwydd a dwyn hanner fy nhrysor, gan frathu fy moch. Ar ba sail wyddonol ydy'r ysbeilwyr adennog hyn yn haeddu gorchymyn gwarchod? Welsoch chi wylan denau erioed?

Bydd tymor newydd ein cymdeithas yn dechrau Nos Lun, Medi 16. Dewch yn llu.


Neville Evans
0791 325 7371

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

**Barbiciw**

Daeth tymor Y Mob i ben ar nos Wener, 19 Gorffennaf gyda barbiciw yng ngardd cartref Arfon a Rachel ar noson braf o haf. Diolch am yr holl a chwerthin yn ystod y flwyddyn. Edrychir ymlaen at dymor newydd o weithgareddau o fis Medi ymlaen.

**Llongyfarchiadau**

• i Ifan Tudur ar ei ddyweddïad gyda Llinos Roberts ddechau'r haf.
• i Carys Moseley ar gyhoeddi ei chyfrol *Nations and Nationalism in the theology of Karl Barth*.; cyhoeddwyr Gwasg Prifysgol Rhydychen.
• i Phillippe Moseley ar ennill gradd MA ym Mhrifysgol Lovain yng ngwlad Belg.
• i Gwilym Jeffs, Gwion Dafydd a Ffion O'Brien ar ennill graddau ym Mhrifysgol Cymru.
• i'n hieuenctid ar eu llwyddiant yn arholiadau TGAU a Lefel A. Pob dymuniad da i'r rhai fydd yn symud ymlaen i golegau prifysgol.

Pob dymuniad da i Gwilym Jeffs ar ei swydd newydd fel cynorthwy-ydd dysgu yn Ysgol Gymraeg Treganna, a Ffion O'Brien fel athrawes yn Ysgol Gymraeg Bro Eirwg.

**Annibynnwr y Byd**

Braint i ni fel eglwys yw bod ein cyn-weinidog, y Parch Ddr Geraint Tudur wedi'i wneud yn Llywydd Annibynwyr y Byd. Bydd yn ymgymryd â'r gwaith dros y pedair blynedd nesaf. Bydd hefyd yn parhau yn ei swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol am y saith mlynedd nesaf. Pob bendith iddo yn y ddwy swydd.

## Tabernacl

**Cerdded i Groes y Parc**

Llongyfarchwn y cyfeillion a lwyddodd i gerdded ar hyd y ffordd o'r Tabernacl i Groes y Parc ar ail fore Sadwrn ganol hâf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y gweinidog a chymerwyd rhan gan Margaret Rees, Rhodri ab Owen a John Thomas.

**Côr y Tabernacl**

Bydd Côr y Tabernacl yn ail-ymgynnull ddydd Sul, Medi'r 8fed am 4.00pm er mwyn dechrau paratoi cyngerdd i'w gynnal ddechrau mis Rhagfyr. Byddwn yn perfformio *Atgof o'r Sêr* gan Robert Arwyn, a detholiadau o'r *Meseia* gan Handel. Mae croeso i gantorion o bob capel ac eglwys i ymuno gyda ni.

**Cinio yng nghartref Huw a Siân Thomas.**

Gwerthfawrogwyd yr arlwy hyfryd a baratowyd ar ein cyfer yng nghartref Huw a Siân er mwyn codi arian tuag at gronfa'r organ. Roedd nifer dda yn bresennol a gwireddwyd swm anrhydeddus iawn.

**Arholiadau**

Daeth ac aeth y cyfnod o arholi, gyda phobl yn edrych ymlaen at dderbyn eu canlyniadau. Ymhlith y sawl a dderbyniodd raddau mae Iwan Jones a Daniel Metcalf. Hefyd llongyfarchwn Elen Ifan ar dderbyn gradd meistr ym Mangor.

**Festri'r Tabernacl**

Mewn cwrdd eglwys ddechrau mis Gorffennaf, cadarnhaodd y cyfarfod gynlluniau gweithgor y festri i fwrw ymlaen gyda'r adnewyddu yn y festri isaf. Erbyn hyn adnewyddwyd rhai o'r ffenestri gyda gwydrau clir a gosodwyd goleuadau newydd yn y nenfwd; yna byddwn yn addurno'r gwaith pren a phaentio'r waliau.

**Peth o hanes yr Eglwys ar Waith yn Lesotho**

Rhyfeddwn bob tro y cawn sgwrs yn fisol gyda Caselin ar y ffôn at ei ffydd, ei hegni, ei gweledigaeth, ei gwasanaeth a'i hymroddiad i'w chyd-ddyn. 'Dyw hi byth yn aros yn llonydd! Rhyfeddwn yn gyson hefyd at y modd y mae'r prosiect hwn wedi tyfu ac ehangu o'i chychwyniad yn 2003. "O'r fesen fach..." !

## Eglwys Dewi Sant

**Priodas**

Llongyfarchiadau i James Dowden a Jan Morgans ar achlysur eu priodas ddiwedd mis Gorffennaf. Mae'r ddau yn aelodau o gôr yr eglwys a ganodd yn y gwasanaeth. Cynhaliwyd y wledd yn neuadd yr eglwys.

**Barbeciw**

Cafwyd noson hwyliog i gloi tymor gweithgareddau Cymdeithas Nos Iau pan gynhaliwyd barbeciw yn Hafodlon. Diolch i'r Ficer am ei groeso i'w gartref.

**Cydymdeimlo**

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Brynmor Jones o'r Creigiau a'r plant, Bethan a Gareth ar ôl iddynt golli Gillian, gwraig a mam annwyl, ar ôl salwch byr. Bu farw Michael Ford ym mis Awst. Daeth Michael i'r Barri i fyw o Wlad yr Haf rai blynyddoedd yn ôl. Ymdrechodd i ddysgu Cymraeg a bu'n aelod ffyddlon o'r eglwys ac hefyd yn ddarllenydd lleyg.

**Croeso**

Croesawyd llond bws o ymwelwyr o blwyfi Llanerchaeron, Ciliau Aeron, Dihewyd a Mydroilyn i'r gwasanaeth boreol ar 18 Awst o dan arweiniad eu ficer, y Parchedig Eileen Davies. Roedd hi'n bleser gweld cynifer yn cydaddoli ac roedd ambell un o aelodau Dewi Sant wrth ei bodd yn cyfarfod â ffrindiau bore oes o Ddyffryn Aeron. Hir y pery'r cysylltiad rhyngom.

# Eglwys y Crwys

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mr David Richards a'r teulu ar ei brofedigaeth o golli ei fam Mrs Margaret Richards. Bu Mrs Richards a'i diweddar briod Delwyn yn aelodau ffyddlon yn y Crwys am flynyddoedd lawer.

### Cyfarchion

Dymunwn anfon ein cyfarchion at Mr Robin Griffith a Mr Garwyn Davies sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar. Gobeithiwn eu gweld yn fuan unwaith eto yn ein plith.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau cynhesaf i'r Dr Ron ac Anna Loh, Caerfaddon, ar enedigaeth eu mab bach Siôn Gwilym, ŵyr bach cyntaf William a Nesta Tiplady a nai i Alun a Daniel.

### Yr Ieuenctid

Llongyfarchiadau i'r holl ieuenctid a fu'n llwyddiannus yn eu arholiadau yn ystod yr haf. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol.

### Y Gymdeithas Ddrama

Ar ddydd Sadwrn godidog o Orffennaf aeth criw o aelodau'r Gymdeithas Ddrama am drip i Stratford i weld cynhyrchiad cyfoes a chyffrous o 'As You Like It'. Bu'n ddiwrnod cofiadwy iawn. Cafwyd pryd o fwyd cyn cychwyn am adre. Mawr yw ein diolch i Robin Owen am drefnu'r ymweliad ac am yrru'r bws mini.

### Y Gymdeithas

Bydd tymor y Gymdeithas yn agor nos Wener, Medi'r 27ain am 7.30 o'r gloch gyda chynhyrchiad Theatr Tir na Nog o 'Gofynnwch i Wallace' gyda Ioan Hefin. Pris y tocyn yw £5.00 ac mae croeso cynnes i bawb.

### Y Grŵp Merched

Bydd y tymor yn cychwyn ar Hydref 7fed yng nghwmni Catrin Hall o Ambiwlans Awyr Cymru. Edrychir ymlaen at dymor amrywiol arall o weithgareddau.

### Y Gylch Cymorth

Bydd y Cylch Cymorth yn cynnal Bore Coffi yn Festri'r Crwys ar fore Sadwrn, Medi'r 14eg. Mae'r holl arian a godir gan y Cylch Cymorth yn cael ei gyfrannu tuag at elusennau lleol.

**www.eglwys-y-crwys.org.uk**

# Minny Street

### Genedigaeth

Croeso cynnes i **Anwen Elin Ffion Rowlands**, merch i Bethan a Parri a chwaer fach i Amy a Cerys ac i **Tomi Defi Llewelyn Walters**, mab i Aled a Siân a brawd bach i Greta. Dymunwn yn dda i'r ddau deulu.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Rhys Patchell am gael ei gap llawn cyntaf am chwarae rygbi dros Gymru yn Japan yn ddiweddar. Pob lwc iddo yn ei yrfa a gobeithio y caiff llawer mwy o gapiau!

### Neges Trydar @MinnyStreet

Chi drydarwyr – cofiwch ddilyn trydar yr eglwys @MinnyStreet.

### Munud i Feddwl

Cofiwch am fyfyrdodau'r gweinidog yn y gyfres o Funud i Feddwl.

### Ein gwefan

Cofiwch ymweld â'n gwefan ar www.minnystreet.org am fwy o fanylion am weithgareddau'r eglwys.

# Eglwys yr Undodiaid

Codwyd Capel Undodiaid Gellionnen yn 1692 yn dilyn y Ddeddf Goddefiad a roddodd yr hawl am y tro cyntaf i Anghydffurfwyr godi capeli. Cynhaliwyd gwasanaethau yn anghyfreithlon ar fferm Gellionnen cyn hynny. Bu'n rhaid i'r ffyddlon addoli ar ben mynydd, ymhell o bobman, am nad oedd croeso iddynt yn y cwm gan 'y sefydliad beirniadol, blin'. Ar ôl cael ei fandaleiddio rai blynyddoedd yn ôl, braf yw gweld y capel wedi ei atgyweirio.


Mae Undodiaid Caerdydd yn addoli yn Nhŷ'r Crynwyr yn Charles Street. Ar yr ail Sul o bob mis mae gwasaneth Gymraeg am 4.00 o'r gloch (ac eithrio mis Mehefin a mis Medi, pan gynhaliwn wasanaeth yng nghapel Penrhiw, Sain Ffagan). Mae Ysgol Sul Gymraeg i blant ar yr ail a'r pedwerydd Sul o bob mis. Gwasanaeth Saesneg sy ar bob Sul arall.

Ym mis Mehefin eleni pregethwyd gan y Parch. J. Eric Jones, ar yr 8 Medi bu gwasanaeth yng ngofal y Parch. Wyn Thomas – yn dilyn gorymdaith drwy Amgueddfa Sain Fagan i ddathlu 200 mlynedd ers Deddf y Drindod a ganiataodd i Undodiaid addoli heb erledigaeth am y tro cyntaf.

Ar y trydydd Sul o bob mis, am 4.00 o'r gloch, mae cyfarfod Saesneg. Ar hyn o bryd rydym yn astudio llyfr Karen Armstrong, *Twelve Steps to a Compassionate Life*. Ym mis Mehefin cynhaliwyd gwasanaeth rhyng-grefyddol llwyddiannus, gyda'r siaradwyr gwadd, y Dr Hassan MBE o Gyngor Mwslemiaid Cymru a Colin Heyman o Synagog Ddiwygiedig Caerdydd, yn trafod y testun "Pwy yw fy Nghymydog"?

Mae'r Undodiaid ynghyd â'r Crynwyr wedi bod yn amlwg eu cefnogaeth i'r mesur sefydlwyd yn ddiweddar yn Nhŷ'r Cyffredin fyddai'n rhoi'r hawl i barau hoyw briodi. Ac, fel yr enwad cyntaf i ordeinio merched yn Weinidogion, credwn at fer ein hesgyrn y dylai pawb gael eu trin yn gyfartal.

# DINESAIR Rhif 135



**Ar Draws**

2. '----- sŵn efengyl bur ar led
   Trwy barthau'r byd o'r bron' (MJ) (3)
5. 'Stormydd creulon arna'i'n curo-
   ------ fyrdd o'm cylch mewn braw' (SJG) (6)
7. Egin o bren arall (6)
9. Gwadu i'r sylw droi'n ofalus (11)
10. Rhaid cael lle i'r tô sy'n nyddu (6)
11. Bwyta o'r paill yn wyllt (6)
13. Mae tyb yn creu adwaith (6)
15. Mae olion garw wedi'r 500 digri (6)
17. 'Wyt ----- ----- -----
    A'th farrug yn wyn' (EW) (6, 2, 3,)
18. Diana yn cysgu a deffro (6)
19. 'A hysbys y dengys dyn
    ----- ----- ----- y bo'i wreiddyn' (TA) (1, 2, 3)
20. Y nôd yw cefn y rhwyd (3)

**I Lawr**

1. Draenog pigog heb ddim apelgar (6)
2. Nifer mawr di-ddiwedd o fuchod (6)
3. A yw lled Dai yn broblem i'r praidd? (6)
4. Cynnig sgôr (4)
6. Yn cyrraedd at y cnau sy'n denu (2, 9)
8. Dilyn yn ôl traed y saint (11)
10. 'Rho imi'r weledigaeth fawr a'm -----
    O'm crwydro ffôl' (GR) (3)
12. Dim ond un mewn englyn o'r fath (3)
14. Bron gwybod am un sionc (6)
15. 'Arnom gweina ----- Un
    Heb ei ofyn;' (ER) (6)
16. Sgrech o fewn lloer Nadolig (6)
17. Bron sorri a wylo (4)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Hydref.

**Enillydd Croesair Rhif 133 -**
**Cyhoeddir yr enw fis nesaf.**

**Atebion Rhif 133**
**Ar Draws** – 1. Cydadrodd; 5. Adeg; 8. Trobwynt; 9. Blêr 11. Eliffant; 13. Radio; 14. Y groes a gwyd; 18. Godre; 19. Golygfa; 21. Dadl; 22. Un milain; 24. Nage; 25. Addunedau
**I Lawr** – 1. Cytbell; 2. Diogi; 3. Drws agored; 4. Ofn; 6. Dyladwy; 7. Gormod; 10. Bragaldian; 12. Tesog; 15. Godidog; 16. Sgadan; 17. Ddafnau; 20. Gwaed; 23. Nodd

## Cymrodorion Caerdydd

CYFARFOD AGORIADOL TYMOR 2013/14

Sefydlu Rhiannon Gregory fel y llywydd newydd.

Cyflwyniad gan y llywydd – 'Themâu'

**Nos Wener 4 Hydref, 7.30, yn festri Capel Minny Street.**

*Croeso cynnes i bawb – nid yw ymaelodi yn angenrheidiol.*

Croeso cynnes i bawb i ddarlith dan nawdd Adran Diwinyddiaeth Graddedigion Prifysgol Cymru

gynhelir yn

**City Church, Windsor Place, Caerdydd**

**Nos Lun 16 Medi 2013**
am 7 o'r gloch.

**Darlithir gan Dr Carys Moseley ar**
*Johannes Wallensis OFM (Siôn o Gymru): golwg ar arwyddocâd diwinyddiaeth Urdd San Ffransis o Assisi ddoe, heddiw ac yfory.*

## Calendr y Dinesydd • Medi-Hydref

**Mawrth, 10 Medi**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Rhiannon Gregory, 'Ma' 'na stori fan hyn', yn Neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm. Croeso arbennig i aelodau newydd. Rhagor o fanylion: 029-2075-4379.

**Mawrth–Sadwrn, 10–14 Medi**
Theatr Genedlaethol Cymru, Living Pictures Productions a Sherman Cymru yn cyflwyno 'Rhwng Dau Fyd', ymateb cyfoes i chwedl *Blodeuwedd* ar ffurf tair drama newydd: 'Gwagle' (Branwen Davies), 'Man Gwyn Man Draw' (Meic Povey) a 'Marjory' (Caryl Lewis). Yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Mercher, 11 Medi**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, ynghyd ag araith y Llywydd, y Parchg Haydn Thomas, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 11 Medi**
Merched y Wawr Bro Radur. Noson yng nghwmni Archdderwydd Cymru, Dr Christine James, yn festri Capel y Methodistiaid, Heol Windsor, Radur, am 7.30pm. Croeso i aelodau newydd i ymuno â ni.

**Iau, 12 Medi**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Sgwrs ar le crefydd ar y cyfryngau yng nghwmni Cerian Arianrhod a'r Parchg John Roberts o adran rhaglenni crefydd BBC Radio Cymru, yng nghapel Bethlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30pm.

**Llun, 16 Medi**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Noson yng nghwmni Llwyd Owen, lle y bydd yn trafod ei ddewis ef o lyfrau. Yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mercher, 18 Medi**
Cymdeithas y Beibl: Gwasanaeth, ffair a noson goffi yn Eglwys y Crwys, Richmond Road, am 7.00pm. Anerchiad gan y Parchg Glyn Tudwal Jones.

**Gwener, 20 Medi**
Penwythnos Pen-blwydd Clwb y Diwc yn 5 Mlwydd Oed: Al Lewis Band, Gwyneth Glyn, Greta Isaac a Huw Stephens, yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm. Tocynnau: £10 y noson neu £15 am y penwythnos, ar gael o Caban.

**Sadwrn, 21 Medi**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan y Parchg Emyr James ar y testun 'Y Gair a Fi'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 21 Medi**
Gêm rygbi: CWINS CAERDYDD v. Pont-y-clun. Adran 3 De-Ddwyrain. C. G. 2.30pm, Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm.

**Sadwrn, 21 Medi**
Penwythnos Pen-blwydd Clwb y Diwc yn 5 Mlwydd Oed: Jess, Jessop a'r Sgweiri, Castro a Richard Rees, yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm. Tocynnau: £10 y noson neu £15 am y penwythnos, ar gael o Caban.

**Mercher, 25 Medi**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweld ag eglwys Llancarfan a thre'r Bont-faen.

**Gwener, 27 Medi**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Llyfr y Flwyddyn, y Crysau Duon, ac Ambell Stori Sydyn.' Sgwrs gan Alun Gibbard, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes i aelodau newydd.

**Gwener, 4 Hydref**
Cymrodorion Caerdydd. Noson agoriadol y tymor. Sgwrs gan y Llywydd newydd, Rhiannon Gregory, ar y testun 'Themâu', yn festri Capel Minny Street am 7.30pm. Croeso arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Gwynn Matthews (029-2056-2880).

**Gwener–Sadwrn, 4–5 Hydref**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno dwy ddrama am Kate Roberts: 'Cyfaill' gan Francesca Rhydderch ac addasiad Manon Wyn Williams o *Te yn y Grug*. Yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Sadwrn, 5 Hydref**
Gêm rygbi: CWINS CAERDYDD v. Tylorstown. Adran 3 De-Ddwyrain. C. G. 2.30pm, Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm.

**Llun, 7 Hydref**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mawrth, 8 Hydref**
Merched y Wawr Caerdydd. Sgwrs gan Sarah Vivian am waith y parafeddyg, yn Neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30pm. Croeso cynnes i bawb. Rhagor o fanylion: 029-2075-4379.

**Mercher, 9 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Prynhawn 'Dod a Dweud' gan yr aelodau, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 10 Hydref**
Cylch Cinio Merched Caerdydd: Noson yng nghwmni'r Athro Prys Morgan, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00pm ar gyfer 7.30pm. Croeso arbennig i aelodau newydd. Manylion pellach: Siân Dowling (029-2075-3670).

**Sadwrn, 12 Hydref**
Gêm rygbi: CWINS CAERDYDD v. Tyllgoed (*Fairwater*). Adran 3 De-Ddwyrain. C. G. 2.30pm, Maes 'Diamond', Heol Fferm y Fforest, Yr Eglwys Newydd. Croeso i bawb gymdeithasu yn y clwb cyn ac ar ôl y gêm.

**Llun–Mawrth, 14–15 Hydref**
Cwmni Theatr 3D yn cyflwyno 'Wyneb Dros Dro' yn Stiwdio Weston, Canolfan Mileniwm Cymru. Tocynnau: £8–£12. Swyddfa docynnau: 029-2063-6464.

**Gwener, 18 Hydref**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Senghennydd 1913' Sgwrs gan y Prifardd Myrddin ap Dafydd, yn Ystafell 0.31, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00pm. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes i bawb

**Sadwrn, 19 Hydref**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00am gan Lis Williams ar y testun 'Ann Griffiths a'r Gair'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Mercher, 23 Hydref**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I fyd yr adar yng nghwmni Daniel Jenkins-Jones o RSPB Cymru, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Sadwrn, 26 Hydref**
Tabernacl, Yr Ais: Oedfa Ddinesig Ddwyieithog i ddathlu daucanmlwyddiant sefydlu'r Tabernacl eleni, am 3:00pm, gyda'r Parchg Roy Jenkins yn bregethwr gwadd a'r Cyngh. Derrick Morgan, Arglwydd Faer Dinas Caerdydd yn bresennol.

**Sadwrn, 26 Hydref**
Cor Philharmonic Caerdydd yn cyflwyno cyngerdd 'Caneuon o'r Sioeau' gyda Wynne Evans, am 7.30pm yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, Caerdydd.

**Llun, 28 Hydref**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Te parti i ddathlu pen-blwydd y Gymdeithas yn 21ain oed. Yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 3.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).


## HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn awyddus i gael cymorth rhywun i fod yn gyfrifol am hysbysebion. Os hoffech ein helpu, byddai Bryan James yn falch o gael sgwrs â chi - 029 20 566731 neu cysylltwch ar db.james@ntlworld.com
Gellir trefnu comisiwn.

# Y GORNEL DDARLLEN

## Adolygiad o 'Aderyn Brith'

Tipyn o sgŵp i nofel gyntaf Rhiannon Gregory, 'Aderyn Brith', oedd cyrraedd Rhif 1 yn Siart Llyfrau'r Cymro wythnos yn unig ar ôl y lansiad swyddogol ar Orffennaf 5ed. Yn rhannol gyfrifol am y fath lwyddiant yr oedd y marchnata effeithiol ar y cyfryngau torfol – yn radio a theledu a phrint heb sôn am y cyfweliad rhwng Bethan Mair a'r awdures yn Tafwyl a'r lansiad yng Nghanolfan Thornhill.




Ond dyw marchnata effeithiol ddim yn ddigon ohono'i hun heb yr addewid am stori dda, cymeriadu cryf ac arddull fywiog a darllenadwy. At hynny, mae teitl bachog a chlawr deniadol yn denu llygad prynwr a darpar ddarllenwr. Cafwyd hynny i gyd yn Aderyn Brith.

Ac os bu aderyn brith amlochrog erioed, wel prif gymeriad y nofel hon sef Mai ar Mana'ch yw honno. Llydawes a ddihangodd yn ifanc o'i chynefin digon cyffredin i gofleidio bywyd ar bob lefel ym Mharis ei breuddwydion oedd Mai. Ar un noson gofiadwy, concrodd y Moulin Rouge gyda'i beiddgarwch; concrodd galonnau gwŷr dylanwadol â'i harddwch, daeth yn gwrtisan i dywysog, a llwyddodd yn sgilgar i ddianc o garchar diarhebol didostur pan oresgynnodd yr Almaenwyr Ffrainc yn yr Ail Ryfel Byd.

Y mae yma ôl ymchwil hir a thrwyadl i hanes yr Almaenwyr yn Ffrainc ac weithiau mae'n anodd gwahaniaethu rhwng ffaith a ffuglen. Weithiau hefyd mae'r hanes fel petai'n arafu llif y nofel ond yn amlach na pheidio mae'n taflu goleuni ar y digwyddiadau sy'n dilyn.


Ond beth ddigwyddodd i Mai a'i morwyn Henriette wedi dianc o'r carchar? Wel, prynwch y nofel i weld a lwyddodd yr Aderyn Brith i gyrraedd ei nyth ai peidio. Do, fe ges i flas arbennig ar y nofel hon – a melys, moes, mwy!

*E.M.R.*

# BREISION

## *Casgliad newydd o ddyfnder dychymyg Jon Gower ...*

Bydd Jon Gower, enillydd Llyfr y Flwyddyn 2012, yn dathlu cyhoeddi ei gyfrol ddiweddaraf ym mis Medi eleni. Bydd ei gasgliad cyntaf o straeon byrion yn y Gymraeg, 'Breision', yn cael ei lansio yng Nghanolfan Chapter, Caerdydd nos Iau, 5 Medi ac yn siop Palas Print, Caernarfon nos Iau, 12 Medi.




Agorwch benglog Jon Gower a gall pethau od iawn arllwys mas: nid yw pethau bob dydd bob amser fel maen nhw'n ymddangos.

Rhwng cloriau'r casgliad Breision cawn straeon eclectig am feirdd Cymraeg yn troi'n sombis, mam-gu frawychus o lofruddiol; dyn sy'n mynd yn ddall ar ôl gweld merch hardd; arwres sy'n achub bywydau ei chyd-Ferched y Wawr gyda'i hyrnbarél a hanes y fampir olaf yng Nghlydach. Fel byddai rhywun yn ei ddisgwyl gan un o awduron mwyaf adnabyddus Cymru, nodweddir y straeon gan ddychymyg byw a naratif byrlymus. Mae'r naws yn dywyll ac yn dreisgar, ond mae ysgafnder a hiwmor crafog yn llechu yma hefyd.

"Mae ffrwythlonder y dychymyg yn syfrdanol," meddai Elan Closs Stephens. Enillodd nofel afaelgar Jon Gower Y Storïwr wobr Llyfr y Flwyddyn 2012, a chyrhaeddodd ei deithlyfr gyda Jeremy Moore o gwmpas yr arfordir, *Wales at Water's Edge*, restr fer Llyfr y Flwyddyn 2013. Bydd ei gyfrol ddiweddaraf 'Breision' ar werth yn eich siop lyfrau leol neu ar-lein oddi wrth y cyhoeddwr, Gwasg Gomer ar www.gomer.co.uk am £7.99.

Manylion llyfryddol
Breision
Jon Gower
Gwasg Gomer
ISBN 9781848515475
£7.99

# Gwefan Y Dinesydd: www.dinesydd.com

# Dewi a Dan yn mentro nôl i 1910

Mi fydd dau o drigolion Caerdydd yn camu nôl mewn amser ym mis Medi fel rhan o gyfres hanes byw gyntaf S4C, Y Plas. Bydd Dewi Preece a Dan Skymer yn ymuno â chriw dewr a fydd yn symud i mewn i blasty yng Ngheredigion er mwyn byw, gweithio a hamddena fel yr oedd trigolion y plas yn ei wneud yn y flwyddyn 1910. Bydd pob unigolyn yn gyfrifol am rôl benodol yn ystod eu tair wythnos ym Mhlas Llanerchaeron, ger Aberaeron. Mi fydd teulu o chwech o Sir Gaerfyrddin yn chwarae rhan y teulu bonedd, tra bod gweddill yr aelodau yn eu gwasanaethu fel rhan o'r gweithlu lawr grisiau. Mae Dewi, sy'n 20 mlwydd oed ac yn dod o'r Eglwys Newydd yng Nghaerdydd yn fyfyriwr Hanes a Cherddoriaeth ym mhrifysgol Caerdydd. O Gaerfyrddin y daw Dan Skymer yn wreiddiol ac mae yntau hefyd yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio Mathemateg.



*Dewi Preece*



*Dan Skymer*

• Mae cyfres Y Plas yn cychwyn ar S4C nos Sul 15 Medi am 8.30pm a bydd ymlaen ar S4C bob nos Sul, nos Lun, nos Fercher a nos Wener hyd nos Sul 6 Hydref.




# Cymdeithas Golff y Ddinas

Bu tymor llwyddiannus arall yn hanes Cymdeithas Golff y Ddinas sy'n dod â golffwyr Cymraeg eu hiaith at ei gilydd yn rheolaidd yn ystod yr haf i gymdeithasu drwy chwarae ar gyrsiau gwahanol o gwmpas Caerdydd a chael tamaid o fwyd wedyn. Mae croeso mawr i golffwyr Cymraeg ymuno â ni drwy gysylltu â Geraint Hampson-Jones ar 02920-340100.

Peter Gillard oedd enillydd Cwpan Park Grove, a noddwyd gan Park Grove Financial Management ar gwrs Bae Abertawe, a Rhydian West oedd enillydd Tlws 'Yr Hen Byter' a noddwyd gan Brewin Dolphin ar gwrs Casnewydd. Y chwech cyntaf yn y gystadleuaeth yma fydd yn cynrychioli'r Gymdeithas yng Nghystadleuaeth Golffwyr Gwalia ym mis Medi ar gwrs Aberystwyth yn erbyn tîmau eraill o bob cwr o Gymru i benderfynu pwy fydd Pencampwyr Golff Cymru yn 2013.



*Meurig Phillips, Cyfarwyddwr Park Grove yn cyflwyno'r Tlws i Peter Gillard*